CYNGOR CYMUNED BRO MACHNO

**DRAFFT**

## Cyfarfod Nos Iau, 17 Medi 2026
## 7yh Shiloh, Cwm Penmachno

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Datganiad o Fuddiant – Cod Ymddygiad
3. Derbyn Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf
4. Adroddiad y Clerc
5. Adroddiad Cyllidol
6. I dderbyn adroddiad gan y Clerc ynghylch gweinyddiaeth ddiweddar y fynwent, cymeradwyo cyfraniad y cyngor tuag at gostau yn dilyn gwall gweinyddol, a chytuno ar weithdrefnau gweinyddol wedi'u diweddaru ar gyfer archebion mynwentydd uniongyrchol.
7. Contract Cyflenwi Trydan y Toiled Cyhoeddus – i'w ystyried a'i gymeradwyo:
    - Newid y cyflenwad trydan ar gyfer y cyfleuster toiled cyhoeddus o E.ON i Octopus Energy i sicrhau tariffau is.
    - Awdurdodi sefydlu a thaliad parhaus drwy Ddebyd Uniongyrchol.
    - Awdurdodi taliad blaendal ymlaen llaw i Octopus Energy, sy'n ofynnol i sicrhau'r cyfraddau isaf sydd ar gael.
8. Offer Chwarae ym mharciau Bro Machno – i ystyried a chymeradwyo cyfathrebu ffurfiol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch y cyflwr presennol a'r posibilrwydd o uwchraddio / darparu offer chwarae yn y ddau barc ym Mro Machno

## Meeting Thursday, 17 September 2026
## 7pm Shiloh, Cwm Penmachno

1. Welcome and Apologies for Absence
2. Declaration of Interest – Code of Conduct
3. Approval of the Minutes of the Last Meeting
4. Clerk's Report
5. Financial Report
6. To receive a report from the Clerk regarding recent cemetery administration, to approve a council contribution toward costs following an administrative error, and to agree on updated administrative procedures for direct cemetery bookings.
7. Public Toilet Electricity Supply Contract – to consider and approve:
    - Switching the electricity supply for the public toilet facility from E.ON to Octopus Energy to secure lower tariffs.
    - Authorising the setup and ongoing payment via Direct Debit.
    - Authorising an advance deposit payment to Octopus Energy, required to secure the lowest available rates.
8. Play Equipment in Bro Machno Parks – to consider and approve formal communication with Conwy County Borough Council regarding the current condition and potential upgrade/provision of play equipment in both parks in Bro Machno.

DRAFT

9. Cynnal a Chadw a Chadwraeth Pontydd Ffordd ym Mro Machno – i'w ystyried a'i gymeradwyo:
   - Adolygu pryderon ynghylch twf llystyfiant cyffredinol ar hyd ffyrdd a gynhelir yn gyhoeddus ac esgeulustod strwythurol ar draws pontydd ffordd lleol (gan gynnwys strwythurau rhestredig a Henebion Cofrestredig).
   - Ysgrifennu'n ffurfiol at Adran Priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ofyn am amserlen arolygu a chynnal a chadw frys.
   - Hysbysu CADW lle mae strwythurau pontydd rhestredig neu gofrestredig mewn perygl o ddirywio oherwydd diffyg cynnal a chadw priodol.
10. Ffens ym Mharc Penmachno – i roi gwybod am y darn o ffens sydd ar goll ym mharc Penmachno a chytuno i uwch-gyfeirio'r perygl diogelwch a'r cais am atgyweirio yn ffurfiol i'r Cyngor Sir.
11. Cais Cynllunio: NP4/29/499B Ysgol Penmachno (Adeiladu lle dysgu awyr agored) – i drafod y datblygiad arfaethedig ar gyfer y lle dysgu awyr agored a chytuno ar ymateb ffurfiol y cyngor i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
12. Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer Ceisiadau Cynllunio: Ystyried dirprwyo awdurdod i'r Clerc i ymateb i ymgynghoriadau cynllunio lle mae'r dyddiad cau yn disgyn cyn cyfarfod nesaf y cyngor.
13. Cludiant Ysgol – i drafod a phenderfynu ar gamau gweithredu angenrheidiol yn dilyn problemau capasiti parhaus posibl gyda chludiant i Ysgol Dyffryn Conwy.
14. Glan-yr-afon, Wybrnant – i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch statws tenantiaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nglan-yr-afon, ac i gadarnhau a oes ceidwad preswyl wedi'i benodi i ofalu am Dŷ Mawr Wybrnant.
15. Dwy goeden yn yr Afon ym Mron Graig, Glasgwm – i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am goed sydd wedi cwympo islaw Bron Graig a phenderfynu ar y camau nesaf gyda'r awdurdod lleol a pherchennog y tir.

9. Maintenance and Conservation of Road Bridges in Bro Machno – to consider and approve:
   - Reviewing concerns regarding general vegetation growth along publicly maintained roads and structural neglect across local road bridges (including listed structures and Scheduled Monuments).
   - Writing formally to Conwy County Borough Council Highways Department to request an urgent inspection and maintenance schedule.
   - Notifying CADW where listed or scheduled bridge structures are at risk of deterioration due to lack of proper maintenance.
10. Penmachno Park Fencing – to report the missing section of fence in Penmachno park and agree to formally escalate the safety hazard and repair request to the County Council.
11. Planning Application: NP4/29/499B Ysgol Penmachno (Construction of an outdoor learning space) – to discuss the proposed outdoor learning space development and agree on the council's formal response to Eryri National Park Authority.
12. Delegated Authority for Planning Applications: To consider delegating authority to the Clerk to respond to planning consultations where the deadline falls prior to the next scheduled council meeting.
13. School Transport – to discuss and determine necessary action following potential ongoing capacity issues with transport to Ysgol Dyffryn Conwy.
14. Glan-yr-afon, Wybrnant – to receive an update regarding the status of the National Trust tenancy at Glan-yr-afon, and to confirm whether a resident custodian has been appointed to care for Tŷ Mawr Wybrnant.
15. Two Trees in the River at Bron Graig, Glasgwm – to receive an update on fallen trees below Bron Graig and determine the next steps with the local authority and landowner.
16. Water Runoff from NRW Land near Carrog – to raise concerns regarding water drainage

DRAFT

16. Dŵr yn Llifo o Dir CNC ger Carrog – i godi pryderon ynghylch draenio dŵr sy'n tarddu o dir a reolir gan CNC yn llifo tuag at Carrog a chytuno ar gamau gweithredu gyda CNC.
17. Pont Droed, Cwm Penmachno – i drafod pryderon diogelwch ynghylch y nant yn tanseilio strwythur pont droed yng Nghwm, ac i gytuno i roi gwybod am y mater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w archwilio a'i thrwsio ar frys.
18. Adolygiad Diogelwch Llwybrau Troed Gwlypdir (Migneint a Chwm Teigl) – i adolygu adroddiadau am amodau cerddwyr anniogel ar lwybrau cyhoeddus sy'n croesi cynefin gwlypdir newydd ei greu, ac awdurdodi'r Clerc i gysylltu â'r tirfeddianwyr / y Parc Cenedlaethol / CBSC.
19. Parcio Ychwanegol yng Nghwm Penmachno: Trafod opsiynau posibl ar gyfer parcio ychwanegol yng Nghwm Penmachno (gan ddefnyddio'r tir sy'n eiddo i'r cyngor sir gerllaw / i'r gogledd-orllewin o'r parc).
20. Draen wedi Blocio yng Nglan Cwm / Blaen Cwm, Cwm Penmachno – i drafod pryderon ynghylch draen wedi blocio, a phenderfynu ar gamau gweithredu gan gynnwys cysylltu â'r awdurdod perthnasol i egluro cyfrifoldeb ac i glirio'r draen.
21. Er gwybodaeth yn unig
22. Eitemau i'w cynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf

originating from NRW-managed land flowing towards Carrog and agree on actions with NRW.

17. Footbridge, Cwm Penmachno – to discuss safety concerns regarding the stream undermining the footbridge structure at Cwm, and to agree on reporting the matter to Conwy County Borough Council for urgent inspection and repair.
18. Wetland Footpath Safety Review (Migneint and Cwm Teigl) – to review reports of unsafe pedestrian conditions on public paths crossing newly created wetland habitat, and authorise the Clerk to contact the landowners / National Park / CCBC.
19. Additional Parking in Cwm Penmachno: to discuss potential options for additional parking in Cwm Penmachno (utilising the land owned by the county council adjacent / north-west of the park)
20. Blocked drain in Glan Cwm / Blaen Cwm, Cwm Penmachno: to discuss concerns about a blocked drain, and decide on actions including contacting the relevant authority to clarify responsibility and to clear the drain
21. For information only
22. Items to be included on the agenda for the next meeting

DRAFT

**Presennol - Present:**
Claire Roberts (Is-Gadeirydd)
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Cadeirydd)
Eifion Davies
Eryl Owain
Owen Davis
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

**Ymddiheuriadau - Apologies:**
Bethan Corrigan
Geraint Thomas

**Datganiad o Fuddiant - Cod Ymddygiad**
Y Cynghorydd Claire Roberts a'r Cynghorydd Eryl Owain: Datganodd y ddau fuddiant personol yn Eitem 11 ar yr

**Declaration Of Interest - Code of Conduct**
Councillor Claire Roberts and Councillor Eryl Owain: Both declared a personal interest in Item 11 on the agenda

agenda (*Cais Cynllunio NP4/29/499B Ysgol Penmachno*) oherwydd eu bod yn Llywodraethwyr yn yr ysgol. Arhosant yn y cyfarfod ond ni chymerasant ran yn y drafodaeth nac yn y bleidlais.

(Planning Application NP4/29/499B Penmachno School) as they are governors at the school. They remained in the meeting but did not take part in the discussion or the vote.

**Derbyn cofnodion y cyfarfodydd diwethaf**

**PENDERFYNWYD:** cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd diwethaf fel cofnod cywir.

**Confirmation of the minutes**

**RESOLVED:** to confirm the minutes of the last meetings as an accurate record.

**Adroddiad y Clerc:**

Derbyniwyd a nodwyd adroddiad y Clerc ar faterion gweinyddol a gweithredol cyfredol.

**Clerk's Report:**

The Clerk’s report on ongoing administrative and operational matters was received and noted.

**Adroddiad Cyllidol**

Cyflwynodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w hadolygu.

**PENDERFYNWYD**: Cymeradwyodd y Cyngor y trafodion a chytunodd fod yr holl faterion ariannol mewn trefn.

**Financial Report**

The Clerk presented a list of all financial transactions since the last meeting for review.

**RESOLVED**: Council approved the transactions and agreed that all financial matters were in order.

**I dderbyn adroddiad gan y Clerc ynghylch gweinyddiaeth ddiweddar y fynwent, cymeradwyo cyfraniad y cyngor tuag at gostau yn dilyn gwall gweinyddol, a chytuno ar weithdrefnau gweinyddol wedi’u diweddaru ar gyfer archebion mynwentydd uniongyrchol.**

**PENDERFYNWYD**:

- Cadarnhau'r taliad o £50 i'r Parch. Morris P. Morris, cymeradwyo hyd at £150 i'r cloddiwr beddau Kevin Edwards (yn amodol ar anfoneb), a chymeradwyo ad-daliad llawn o £200 i'r teulu fel arwydd o ewyllys da.
- Awdurdodi'r Clerc i gynnal adolygiad cynhwysfawr o Reolau, Ffioedd a Rheoliadau Mynwentydd y Cyngor i'w gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**To receive a report from the Clerk regarding recent cemetery administration, to approve a council contribution toward costs following an administrative error, and to agree on updated administrative procedures for direct cemetery bookings.**

**RESOLVED**:

- To ratify the payment of £50 to Rev. Morris P. Morris, approve up to £150 for the grave digger Kevin Edwards (subject to an invoice), and approve a full refund of £200 to the family as a gesture of goodwill.
- To authorise the Clerk to conduct a comprehensive review of the Council’s Cemetery Rules, Fees, and Regulations for presentation at a future meeting.

**Contract Cyflenwi Trydan Y Toiled Cyhoeddus**

Ystyriwyd y cynnig i newid cyflenwr trydan y toiled cyhoeddus er mwyn sicrhau tariffau is.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo newid y cyflenwad trydan ar gyfer y toiled cyhoeddus o E.ON i Octopus Energy.
2. Awdurdodi sefydlu a thaliad parhaus drwy Ddebyd Uniongyrchol yn unol â Rheoliad Ariannol 7.9.
3. Awdurdodi taliad blaendal ymlaen llaw i Octopus Energy er mwyn sicrhau'r cyfraddau isaf sydd ar gael.

**Public Toilet Electricity Supply Contract**

The proposal to change the electricity supplier for the public toilet in order to secure lower tariffs was considered.

**RESOLVED**:

1. To approve changing the electricity supply for the public toilet from E.ON to Octopus Energy.
2. To authorise the setting up and ongoing payment via Direct Debit in accordance with Financial Regulation 7.9.
3. To authorise an advance deposit payment to Octopus Energy in order to secure the lowest available rates.

DRAFT

DRAFT

**Offer Chwarae ym Mharciau Bro Machno**
Ystyriwyd cyflwr yr offer chwarae ym mharciau'r fro.

**PENDERFYNWYD**: Awdurdodi'r Clerc i ysgrifennu'n ffurfiol at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ofyn am ddarparu ffrâm ddringo newydd ar gyfer y parc yng Nghwm Penmachno.

**Cynnal a Chadw a Chadwraeth Pontydd Ffordd ym Mro Machno**

**NODWYD:** bod y Cynghorydd Sir Dilwyn Roberts eisoes yn mynd i'r afael â'r problemau hyn yn uniongyrchol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Ffens ym Mharc Penmachno**
Nodwyd bod angen atgyweirio'r ffens o hyd.

**PENDERFYNWYD:** I adrodd y mater i'r Cyngor Sir unwaith eto.

**Cais Cynllunio: NP4/29/499B Ysgol Penmachno**
**Cynnig:** Adeiladu dosbarth / lle dysgu awyr agored.

Datganodd y Cynghorydd Claire Roberts a'r Cynghorydd Eryl Owain fuddiant personol fel Llywodraethwyr yn yr ysgol. Arhosant yn y cyfarfod ond ni chymerasant ran yn y drafodaeth nac yn y bleidlais.

**PENDERFYNWYD:** bod y Cyngor Cymuned yn **CEFNOGI** y cais cynllunio, gan nodi y bydd y cynnig yn darparu cyfleuster addysgol ac ieithyddol gwerthfawr i'r gymuned, heb gael unrhyw effaith niweidiol ar y dirwedd leol, treftadaeth na diogelwch ar y ffyrdd.

**Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer Ceisiadau Cynllunio**
Ystyriwyd rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc er mwyn ymateb i ymgynghoriadau cynllunio lle mae'r dyddiad cau cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor, gan osgoi'r angen i gynnal Cyfarfodydd Eithriadol yn aml.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i gyflwyno ymatebion i ymgynghoriadau cynllunio rhwng cyfarfodydd, yn amodol ar y broses ganlynol:

1. Bydd y Clerc yn dosbarthu manylion y cais cynllunio i bob Aelod.

**Play Equipment in Bro Machno Parks**
The condition of the play equipment in the area's parks was considered.

**RESOLVED**: To authorise the Clerk to write formally to Conwy County Borough Council to request the provision of a new climbing frame for the park in Cwm Penmachno.

**Maintenance and Conservation of Road Bridges in Bro Machno**

**NOTED**: that County Councillor Dilwyn Roberts is already addressing these issues directly with Conwy County Borough Council.

**Fence in Penmachno Park**
It was noted that the fence still requires repair.

**RESOLVED**: To report the matter to the County Council once again.

**Planning Application: NP4/29/499B Penmachno School**
**Proposal:** Construction of a classroom / outdoor learning space.

Councillor Claire Roberts and Councillor Eryl Owain declared a personal interest as School Governors. They remained in the meeting but took no part in the discussion or the vote.

**RESOLVED:** that the Community Council **SUPPORTS** the planning application, noting that the proposal will provide a valuable educational and linguistic facility for the community, without having any adverse impact on the local landscape, heritage, or road safety.

**Delegated Authority for Planning Applications**
Consideration was given to granting delegated authority to the Clerk to respond to planning consultations where the deadline falls before the Council's next ordinary meeting, thereby avoiding the need to hold frequent Extraordinary Meetings.

**RESOLVED**: To approve granting delegated authority to the Clerk to submit responses to planning consultations between meetings, subject to the following process:

1. The Clerk will circulate details of the planning application to all Members.

2. Bydd gan Aelodau 5 diwrnod gwaith i gyflwyno sylwadau ar ystyriaethau cynllunio perthnasol i'r Clerc.
3. Bydd y Clerc yn penderfynu ar yr ymateb terfynol, gan ystyried sylwadau'r aelodau ac ymgynghori â'r Cadeirydd i sicrhau bod yr ymateb yn adlewyrchu consensws yr aelodau.
4. Os bydd dau Aelod neu fwy yn gwrthwynebu neu'n gofyn am gyfarfod, ni fydd yr awdurdod dirprwyedig yn cael ei ddefnyddio a bydd y Cadeirydd yn galw Cyfarfod Eithriadol.

2. Members will have 5 working days to submit comments regarding relevant planning considerations to the Clerk.
3. The Clerk will determine the final response, taking into account members' comments and consulting the Chair to ensure the response reflects the members' consensus.
4. If two or more Members object or request a meeting, the delegated authority will not be exercised, and the Chair will call an Extraordinary Meeting.

**Cais NP4/29/LB220C (8 Rhiwbach Terrace, Cwm Penmachno, LL24 0SB):**
Yn dilyn y penderfyniad uchod, cyflwynodd y Clerc fanylion cais Cydsyniad Adeilad Rhestredig am newid ffenestri uPVC anawdurdodedig i ffenestri sasiwn pren, a dderbyniwyd yn rhy hwyr i'w gynnwys ar yr agenda. Cytunodd yr holl Aelodau eu bod yn cymeradwyo'r cais a rhoddant awdurdod i'r Clerc i gyflwyno ymateb o gefnogaeth i'r Awdurdod Cynllunio o dan yr awdurdod dirprwyedig newydd.

**Application NP4/29/LB220C (8 Rhiwbach Terrace, Cwm Penmachno, LL24 0SB):**
Following the above decision, the Clerk presented details of a Listed Building Consent application to replace unauthorised uPVC windows with timber sash windows; the application had been received too late to be included on the agenda. All Members agreed to approve the application and authorised the Clerk to submit a response of support to the Planning Authority under the new delegated authority.

**Cludiant Ysgol**
Trafodwyd problemau capasiti parhaus gyda chludiant disgyblion i Ysgol Dyffryn Conwy.
**NODWYD**:
- Cyfeiriwyd at ffotograff yn dangos disgyblion yn sefyll ar y bws yr wythnos flaenorol.
- Codwyd cwestiwn ynghylch beth yw telerau'r contract gyda Chwmni Llew Jones. Roedd y Cynghorydd Sir Dilwyn Roberts yn deall bod bws mwy i fod i gael ei ddarparu, ond roedd ansicrwydd ai dyna a ddigwyddodd.
- Nodwyd bod y Cynghorydd Sir, Dilwyn Roberts, yn parhau i ddelio â'r problemau hyn yn uniongyrchol gyda'r Cyngor Sir. Nododd y Cynghorydd Claire Roberts ei bod eisoes wedi cysylltu â Claire Hughes AS, sydd yn hapus i gymryd y mater ymhellach ac ymyrryd os na cheir datrysiad boddhaol gan y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD:** Cysylltu eto gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch y problemau cludiant, gan gynnwys a chyflwyno'r lluniau a ddarparwyd gan y Cynghorydd Claire Roberts fel tystiolaeth.

**School Transport**
Ongoing capacity issues regarding pupil transport to Ysgol Dyffryn Conwy were discussed.
**NOTED:**
- Reference was made to a photograph showing pupils standing on the bus the previous week.
- A question was raised regarding the terms of the contract with the Llew Jones bus company. County Councillor Dilwyn Roberts understood that a larger bus was supposed to be provided, but there was uncertainty as to whether this had actually happened.
- It was noted that County Councillor Dilwyn Roberts continues to deal with these issues directly with the County Council. Councillor Claire Roberts noted that she had already contacted Claire Hughes MP, who is willing to take the matter further and intervene if a satisfactory resolution is not reached with the County Council.

**RESOLVED:** To contact Conwy County Borough Council again regarding the transport problems, including submitting the photographs provided by Councillor Claire Roberts as evidence.

**Glan-yr-afon, Wybrnant**

**Glan-yr-afon, Wybrnant**

DRAFT

Codwyd pryderon lleol ynghylch statws y denantiaeth yn Glan-yr-afon.

Local concerns were raised about status of the tenancy at Glan-yr-afon.

**PENDERFYNIAD:** Awdurdodi'r Clerc i ysgrifennu at Trystan Edwards (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) i fynegi pryderon y Cyngor, holi am statws y denantiaeth a cheidwad Tŷ Mawr Wybrnant, a gofyn nifer yr ymgeiswyr a'r rheswm dros y penderfyniad.

**RESOLVED:** To authorise the Clerk to write to Trystan Edwards (National Trust) to express the Council's concerns, enquire about the status of the tenancy and the position of custodian of Tŷ Mawr Wybrnant, and ask for the number of applicants and the reason for the decision.

**Dwy Goeden yn yr Afon ym Mron Graig, Glasgwm**
Codwyd pryderon ynghylch dwy goeden sydd wedi cwympo ac sy'n rhwystro Afon Glasgwm islaw Bron Graig.

**PENDERFYNWYD:** Awdurdodi'r Clerc i anfon llythyr am y mater at Gwyn Parry (Adran Strwythurau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ynghyd â llythyr at yr Adran Draenio Tir / Rheoli Risg Llifogydd.

**Two trees in the River at Bron Graig, Glasgwm.**
Concerns were raised regarding two fallen trees obstructing the River Glasgwm below Bron Graig.

**RESOLVED:** To authorise the Clerk to send a letter regarding the matter to Gwyn Parry (Structures Department, Conwy County Borough Council), together with a letter to the Land Drainage / Flood Risk Management Department.

**Dŵr yn Llifo o Dir CNC ger Carrog**
Trafodwyd y broblem barhaus o ddŵr yn rhedeg o dir Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) tuag at Carrog. Nodwyd bod y Cynghorydd Dafydd Gwyndaf eisoes wedi cynnal cyfarfod safle ar 23 Ionawr 2025 gyda Rhys a pheiriannydd o CNC, ond bod y broblem yn parhau heb ei datrys er i Dylan Williams (CNC) nodi mewn e-bost ar 26 Tachwedd 2025 fod y mater wedi'i gau.

**PENDERFYNWYD:**
Awdurdodi'r Clerc i ysgrifennu at Dylan Williams (CNC) i:
1. Ei atgoffa am ei ymweliad arfaethedig â chyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.
2. Ei atgoffa am y cyfarfod safle blaenorol ac egluro bod y broblem ddraenio yn parhau heb ei datrys.
3. Gofyn am adroddiad a chamau gweithredu gwaith adferol cyn gynted â phosibl.

**Water Flooding from NRW Land near Carrog**
The ongoing problem of water running from Natural Resources Wales (NRW) land towards Carrog was discussed. It was noted that Councillor Dafydd Gwyndaf had already held a site meeting on 23 January 2025 with Rhys and an NRW engineer, but that the problem remains unresolved, despite Dylan Williams (NRW) stating in an email on 26 November 2025 that the matter was closed.

**RESOLVED**:
To authorise the Clerk to write to Dylan Williams (NRW) to:
1. Remind him of his proposed visit to the Council meeting in November.
2. Remind him of the previous site meeting and explain that the drainage problem remains unresolved.
3. Request a report and an action plan for remedial work as soon as possible.

**Pont Droed, Cwm Penmachno**
Trafodwyd pryderon diogelwch ynghylch y nant yn tanseilio strwythur y bont droed yng Nghwm Penmachno.

**NODWYD:** bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod am y mater yn bersonol ac yn uniongyrchol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy ddefnyddio gwasanaeth ar-lein "Rhoi Gwybod" y Cyngor Sir.

**Footbridge, Cwm Penmachno**
Safety concerns were discussed regarding the stream undermining the structure of the footbridge in Cwm Penmachno.

**NOTED:** The Chair will report the matter personally and directly to Conwy County Borough Council using the County Council's "Report It" online service.

DRAFT

**Adolygiad Diogelwch Llwybrau Troed Gwlypdir (Migneint a Chwm Teigl)**
Adolygwyd pryderon ac adroddiadau am amodau cerddwyr anniogel ar lwybrau cyhoeddus sy'n croesi cynefin gwlypdir newydd ei greu yn yr ardal.

**NODWYD:** bod y Cynghorydd Dafydd Gwyndaf am ymchwilio ymhellach ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ar y mater. Ni fydd angen unrhyw gamau gweithredu gan y Clerc ar hyn o bryd, ond gytunwyd i gynnwys y mater ar Adroddiad y Clerc ar gyfer monitro parhaus.

**Parcio Ychwanegol yng Nghwm Penmachno**
Trafodwyd yr angen am barcio ychwanegol yn yr ardal.

**NODWYD:** bod holiadur ar gyfer preswylwyr yn cael ei baratoi i gasglu barn y gymuned leol. Ni oes angen unrhyw gamau gweithredu ar hyn o bryd.

**Draen Wedi Blocio yng Nglan Cwm / Blaen Cwm, Cwm Penmachno**
Codwyd pryderon ynghylch draen sydd wedi blocio yn ardal Glan Cwm / Blaen Cwm, Cwm Penmachno.

Nodwyd bod y mater hwn wedi'i drafod ar y cyd ag Eitem 15 (Dwy goeden yn yr Afon ym Mron Graig). **PENDERFYNWYD** y bydd y Clerc yn cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Gwin Parry / Adran Strwythurau a Llifogydd) ynghylch y ddau fater ar yr un pryd.

**Er Gwybodaeth yn Unig**

Nodwyd y materion canlynol er gwybodaeth yn unig:

- **Rheolau Sefydlog:** Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Rheolau Sefydlog newydd yn ffurfiol yn seiliedig ar reolau sefydlog model 2026. Bydd y Clerc yn paratoi'r ddogfen newydd pan fydd amser yn caniatáu.
- **Cod Ymddygiad:** Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu newidiadau i'r Cod Ymddygiad yn ffurfiol i ymgorffori darpariaethau newydd ynghylch nodweddion gwarchodedig. Bydd y Clerc yn paratoi'r ddogfen newydd pan fydd amser yn caniatáu.
- **Mynediad i Dir Fferm:** Mae perchennog tir wedi cwyno ei fod yn cael anhawster mynd at ei dir fferm yn ystod tymor prysur yr haf oherwydd bod twristiaid yn blocio'r giât. Mae eisoes wedi rhoi gwybod am y mater i'r Cyngor Sir.

**Review of Wetland Footpath Safety (Migneint and Cwm Teigl)**
Concerns were raised regarding unsafe conditions for walkers on public footpaths crossing a newly created wetland habitat in the area.

**NOTED**: that Councillor Dafydd Gwyndaf intends to investigate further and report back to the Council on the matter. No action is required from the Clerk at present, but it was agreed to include the item in the Clerk's Report for ongoing monitoring.

**Additional Parking in Cwm Penmachno**
The need for additional parking in the area was discussed.

**NOTED**: that a questionnaire for residents is being prepared to gather the views of the local community. No action is required at present.

**Blocked Drain at Glan Cwm / Blaen Cwm, Cwm Penmachno**
Concerns were raised regarding a blocked drain in the Glan Cwm / Blaen Cwm area, Cwm Penmachno.

It was noted that this matter had been discussed in conjunction with Item 15 (Two trees in the river at Bron Graig). It was **RESOLVED** that the Clerk would contact Conwy County Borough Council (Gwin Parry / Structures and Flooding Department) regarding both matters at the same time.

**For Information Only**

**The following matters were noted for information only:**

- **Standing Orders:** The Council must formally adopt new Standing Orders based on the 2026 model standing orders. The Clerk will prepare the new document when time permits.
- **Code of Conduct:** The Council must formally adopt changes to the Code of Conduct to incorporate new provisions regarding protected characteristics. The Clerk will prepare the new document when time permits.
- **Access to Farmland:** A landowner had complained of difficulty accessing his farmland during the busy summer season because tourists are blocking the gate. He has already reported the matter to the County Council.
- **Enquiry Regarding the Dog Ban in Penmachno Park:** An enquiry was considered regarding whether the dog ban could be lifted for one day

DRAFT

- **Ymholiad Ynghylch y Gwaharddiad ar Gŵn ym Mharc Penmachno:** Ystyriwyd ymholiad ynghylch a ellid codi'r gwaharddiad ar gŵn am un diwrnod bob blwyddyn. Nodwyd na ellir rhoi eithriad un diwrnod yn gyfreithlon o dan Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CCBC) heb broses amrywio statudol, ynghyd â'r risgiau cysylltiedig i iechyd y cyhoedd (Toxocariasis / dallineb mewn plant). Nodwyd bod CCBC yn rheoli'r PSPO, ac felly dylid cyfeirio'r ymholiad yn uniongyrchol at y Cyngor Sir.
-

each year. It was noted that a one-day exemption cannot legally be granted under Conwy County Borough Council's (CCBC) Public Spaces Protection Order (PSPO) without a statutory variation process, alongside the associated public health risks (Toxocariasis / blindness in children). It was noted that CCBC manages the PSPO, and so the enquiry should be made directly to the County Council.

**Eitemau i'w cynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf**

Nodwyd yr eitem ganlynol i'w chynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor:

- Prynu Coeden Nadolig y Pentref

**Items to be included on the next meeting's agenda**

The following item was noted for inclusion on the agenda for the Council's next meeting:

- Purchase of the village Christmas tree

**Cyfarfod nesaf a chau'r cyfarfod**

Cynhelir cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor nos Lun, 16 Tachwedd 2026 yn festri Capel Salem, Penmachno.

Gorffennodd y cyfarfod am 20:40

**Date of next meeting and closure**

The next ordinary meeting of the Council will be held on Monday, 16 November 2026 at Capel Salem vestry, Penmachno.

The meeting closed at 20:40

DRAFT